
# TASG: TREFNU AMSER

WYT TI WEITHIAU YN MEDDWL AM GYMAINT O BETHAU YN DY BEN DWYT TI DDIM YN GWYBOD BLE I DROI NA BETH I WNEUD GYNTA'? OS WYT TI, YNA RWYT TI RHYWBETH TEBYG I SEREN, A DWI'N CREDU GYDA BACH O HELP GALLWN NI RHOI TREFN AR Y MEDDYLIAU 'NA.

PA FATH O BETHAU SY'N MYND TRWY DY BEN YN YSTOD Y DYDD? DYMA RHAI O'R PETHAU OEDD YN MYND TRWY BEN SEREN. TYBED OS FYDD DY RESTR DI RHYWBETH TEBYG?

1. **MYND I LAWNSIAD Y FWYDLEN NEWYDD AT DAD**
2. **MYND I WELD TY NEWYDD GYDA MAM A BOB**
3. **ADOLYGU AR GYFER PRAWF MATHEMATEG**
4. **GWNEUD PROSIECT CYMRAEG**
5. **CWBLHAU GWAITH CARTREF SAESNEG**
6. **MYND I NOFIO GYDA MIA**
7. **GWEITHIO YN Y BWYTY**

MAE'N ANODD RHOI TREFN AR DY FEDDYLIAU PAN FOD CYMAINT OHONYN NHW'N TROI YN DY BEN! BETH AM I NI DDECHRAU TRWY DREFNU P'UN YW'R RHAI PWYSICAF? BETH AM GREU PYRAMID BLAENORIAETHU?




TREFNA DY RESTR O FEDDYLIAU YN ÔL Y RHAI SYDD ANGEN **BLAENORIAETHU** GYNTAF. PA RAI SYDD YN BWYSICACH I'W CWBLHAU GYNTAF?

YSTYRIA FAINT O **AMSER** SY'N DDERBYNIOL I'W DREULIO YN GWNEUD POB TASG AC OES RHAID GWNEUD AMBELL DASG MWY NAG UNWAITH MEWN WYTHNOS?

OES YNA BETHAU SYDD AR GOLL O RESTR SEREN SY'N BWYSIG? **BWYTA, YMLACIO, CYMDEITHASU**

BETH AM FYND ATI I GREU **AMSERLEN** WYTHNOS I SEREN AC I TI DY HUN. DWI'N SIWR Y BYDD TREFNU DY AMSER YN OFALUS YN LLEDDFU RHYWFAINT O'R PRYDER.

**A CHOFIA ANADLU, 4,3,2,1!**